O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 754 (Cy. 116)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Ger Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud *10 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *17 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Ger Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith," ("*works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 17 Mawrth 2011 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of trunk road"*) yw'r darnau o Gefnffordd yr A477 Sanclêr – Doc Penfro, ger Rhos-goch yn Siroedd Caerfyrddin a Phenfro, a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlenni 1 a 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu defnydd o gerbyd yn y fath fodd ag i beri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu disgrifio yn Atodlenni 1 a 2.

6. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2004**(3)** drwy hyn yn cael eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod cyfnodau pan fydd y cyfyngiad a nodir yn erthygl 4 yn weithredol.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fydd cymhwysiad y cyfyngiad a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei nodi gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y mae'r cyfryw gyfyngiad a gwaharddiad yn cael eu nodi gan yr arwyddion hynny.

8. Uchafswm cyfnod y Gorchymyn hwn fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 10 Mawrth 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 c.27; Disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (c.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru
(3) O.S. 2004 22/Cy3

ATODLENNI

ATODLEN 1

Rhychwant y Terfynau Cyflymder 40 MYA a 10 MYA dros dro a'r gwaharddiad dros dro ar oddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 479 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4314 (i Tavernspite), yn Sir Gaerfyrddin, hyd at bwynt 1.85 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno, yn Sir Benfro.

ATODLEN 2

Rhychwant y Terfyn Cyflymder 10 MYA dros dro a'r gwaharddiad dros dro ar oddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 4.39 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4314 (i Tavernspite), hyd at bwynt 479 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno, yn Sir Gaerfyrddin.